

Rhif: WG39261



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig

Dyddiad cyhoeddi: 16 Rhagfyr 2019

Ymatebion erbyn: 13 Mawrth 2020

## **Trosolwg**

Y brif ffynhonnell cyllid ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau) yw incwm ffioedd a dderbynnir ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau, y bwriad iddynt yw adennill y costau am ddarparu'r gwasanaeth hwn ac a ragnodir yn y Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) Rheoliadau (Cymru) 2015 (fel y'u diwygiwyd).

Er mai nod ffioedd ymgeisio yw adennill costau ACLLau wrth ddarparu gwasanaeth rheoli datblygu, mae wedi dod yn fwy amlwg nad yw lefelau ffioedd yn adennill costau rhedeg gwasanaethau rheoli datblygu. O ganlyniad, mae ACLLau yn symud ymhellach i ffwrdd o adennill costau.

Nod yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn rhanddeiliaid ar gynyddu ffioedd cynllunio yng Nghymru, er mwyn cynorthwyo i wella adennill costau i awdurdodau cynllunio lleol.

## **Sut i ymateb**

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 13 Mawrth 2020 a gallwch ymateb gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

E-bost: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:

[planconsultations-g@gov.wales](mailto:planconsultations-g@gov.wales)

Dylech gynnwys 'Newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig – WG39261' yn y llinell destun.

Post: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:

Newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig  
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

## **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

E-bost: [planconsultations-g@gov.wales](mailto:planconsultations-g@gov.wales)

Ffôn: Owain Williams ar 0300 025 1715

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

### Sut y bydd y safbwyntiau a'r wybodaeth a roddwch inni yn cael eu defnyddio

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld

- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD,  
CF10 3NQ

e-bost: [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
<u>Pennod 1 - Cyflwyniad a Throsolwg</u>	
1. Cyflwyniad	1
2. Y sail ar gyfer ffioedd cynllunio	1
3. Diben ffioedd cynllunio	1
 <u>Pennod 2 - Ffioedd Cynllunio Cynyddol</u>	
4. Y Mater	2
5. Ein cynigion	
<i>Cynnydd cyffredinol o ran ffioedd</i>	2
<i>Cyflwyno ffioedd ar gyfer Ceisiadau am Dystysgrifau Datblygiad Arall Priodol</i>	3
6. Ein cynigion ar gyfer y dyfodol	4
 Atodlen A – Diwygiadau ffioedd arfaethedig	 6

# PAPUR YMGYNGHORI

## Newidiadau i Ffioedd Ceisiadau Cynllunio

### 1. Cyflwyniad a Throsolwg

#### Cyflwyniad

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru o blaid system gynllunio sy'n rheoli datblygiad a'r defnydd o dir er budd y cyhoedd, gan flaenoriaethu manteision ar y cyd yn yr hirdymor, yn ogystal â chyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
- 1.2 I helpu'r system gynllunio i gyflawni'r amcanion hyn, rhaid inni sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol ("ACLlau") yn gallu manteisio ar yr adnoddau angenrheidiol a'u bod yn eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i daro cydbwysedd rhwng yr angen i ystyried penderfyniadau ynghylch ceisiadau yn ofalus a'r angen i wneud penderfyniadau yn brydlon.
- 1.3 Prif ffynhonnell ariannu ACLlau yw'r incwm a geir o ffioedd penderfynu ar geisiadau ac fe'u bwriadwyd i adennill y costau sydd ynghlwm wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, gyda'r amryfal newidiadau i ddeddfwriaeth, i bolisiau ac i weithdrefnau ers diweddarau'r ffioedd cynllunio yn 2015 (a drafodir ymhellach ym Mhenod 2), yn ogystal â ffactorau eraill, megis chwyddiant, cynnydd o ran costau gweinyddu ac effeithiau cyni'r sector cyhoeddus, rydym yn cydnabod bod angen newid y ffioedd hyn i adlewyrchu'r galw cynyddol sydd ar y system rheoli datblygu.
- 1.4 Mae'r papur ymgynghori hwn yn nodi cynigion i newid ffioedd ceisiadau cynllunio yng Nghymru.

#### Y sail ar gyfer ffioedd cynllunio

- 1.5 Mae Adran 303 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu'r pŵer angenrheidiol i Weinidogion Cymru ragnodi ffioedd neu gostau mewn cysylltiad â swyddogaethau cynllunio. Maent wedi'u manylu ar hyn o bryd yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 (fel y'u diwygiwyd) ("Rheoliadau 2015").

#### Diben ffioedd cynllunio

- 1.6 Mae penderfyniadau cynllunio yn aml yn dod â budd preifat i ymgeiswyr, er enghraifft, gall eiddo sydd â chaniatâd cynllunio i gyflawni gwaith arno neu i'w wella fod dipyn yn fwy gwerthfawr nag y byddai hebdo. Oherwydd hyn, mae'r ffi sy'n mynd gyda chais cynllunio yn cydnabod y budd preifat hwn yn ogystal ag adlewyrchu cost gyffredinol ymdrin ag amryfal fathau o geisiadau, eu

gweinyddu a phenderfynu arnynt. Mae lefelau'r ffioedd wedi'u dylunio i geisio adennill costau uniongyrchol y broses hon a rhan o'r gorbenion perthnasol.

## 2. Ffioedd Cynllunio Cynyddol

### Y Mater

- 2.1 Am gryn dipyn o amser, mae ACLlau wedi wynebu sawl mater sydd wedi effeithio ar sut y mae'r system rheoli datblygu yn gweithredu yng Nghymru, megis gostyngiadau yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau a llai a llai o adnoddau arbenigol. Ar ben hynny, cyflwynodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Hydref 2016, a oedd yn dangos 53% o gwtogiad yn y gyllideb ar gyfer gwasanaethau cynllunio rhwng blynyddoedd ariannol 2009/10 a 2016/17. Gall hyn nid yn unig effeithio ar ansawdd y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, ond hefyd gall gael effaith sylweddol ar ba mor brydon y gellir gwneud y penderfyniadau hyn.
- 2.2 Ers cyflwyno Rheoliadau 2015, mae ACLlau hefyd wedi bod yn ddarostyngedig i ofynion ychwanegol drwy newidiadau ac ychwanegiadau i bolisi a deddfwriaeth wrth benderfynu ar geisiadau. Er enghraifft, mae cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygiadau cynaliadwy ac er nad yw hwn yn gysyniad newydd ar gyfer y system gynllunio, mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio, fel y'u nodwyd yn y ddeddfwriaeth, a chymryd pob cam rhesymol (wrth arfer eu swyddogaethau) i gyflawni eu hamcanion llesiant penodedig<sup>1</sup>.
- 2.3 Nod ffioedd ceisiadau yw adennill costau ACLlau o ran darparu gwasanaeth rheoli datblygu. Fodd bynnag, mae wedi dod yn fwyfwy eglur nad yw lefelau ffioedd yn cyfateb i gostau rhedeg gwasanaethau rheoli datblygu. O ganlyniad, mae ACLlau yn symud i ffwrdd o'r gallu i adennill costau. Gallai hyn effeithio'n negyddol ar sut y mae'r system gynllunio yn cyflenwi'r ffordd y caiff tir ei ddatblygu a'i reoli yng Nghymru, sy'n un o'r prif ffactorau sy'n ysgogi cynnydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

### Ein cynigion

#### Cynnydd cyffredinol o ran ffioedd

- 2.4 Mae ein tystiolaeth yn awgrymu nad yw lefelau'r ffioedd presennol yn ddigonol i redeg gwasanaeth rheoli datblygu effeithlon gan nad yw'r costau yn cael eu hadennill. Mae ACLlau yn parhau i gollu incwm hanfodol, gyda'r anghydraddoldeb rhwng ffioedd a chostau yn ehangu.

---

<sup>1</sup>Adran 3(2)(b) ac Adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 2.5 O ran rheoli arian cyhoeddus, yr egwyddor sylfaenol yw y dylid gosod ffioedd sy'n adennill y costau yn llawn. Mae'r dull hwn yn sicrhau nad yw ACLlau yn elwa ar draul defnyddwyr gwasanaethau, nac yn gwneud colled a fyddai'n golygu gorfod cael cymhorthdal gan ffynhonnell ariannol ychwanegol<sup>2</sup>. Felly, rhaid inni daro'r cydbwysedd cywir rhwng y gwasanaeth a ddarperir gan dimau rheoli datblygu mewn awdurdodau lleol a lefel y ffi sydd angen ei chyflwyno gyda phob cais.
- 2.6 Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg presennol rhwng y gost o benderfynu ar geisiadau a'r incwm a geir o ddarparu'r gwasanaeth hwn, rydym yn cynnig cadw'r strwythur ffioedd presennol a sefydledig a nodir yn Rheoliadau 2015 yn y tymor byr a chynyddu ffioedd cynllunio 20% yn gyffredinol, ac eithrio ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyn cyflwyno cais, a fydd yn parhau ar y lefelau presennol. Yn gyfnewid, gofynnwn fod yr incwm ychwanegol a geir o'r ffi yn parhau i fod y gyllideb a ddefnyddir gan ACLlau i ddarparu gwasanaethau ac na fydd yn cael ei wrthbwysu gan ostyngiad cyfwerth mewn cyllid corfforaethol ar gyfer y gwasanaeth.
- 2.7 Gwnaed yr eithriad hwn oherwydd y cyflwynwyd ffioedd ar gyfer gwasanaeth cyn cyflwyno cais yn dilyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac maent yn seiliedig ar strwythur a sylfaen dystiolaeth fwy diweddar sy'n dal i fod yn briodol o gofio'r cyfnod byr nad yw ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyn cyflwyno cais wedi bod mewn grym. Ar ben hynny, nid ein bwriad yw annog ymgeiswyr i beidio â chynnal trafodaethau gwerth chweil gydag ACLlau cyn iddynt gyflwyno cais.
- 2.8 Mae'r newidiadau arfaethedig i ffioedd wedi'u nodi yn Atodiad A.

*Cyflwyno ffioedd ar gyfer Ceisiadau am Dystysgrifau Datblygiad Arall Priodol*

- 2.9 Mae ymgeiswyr ar hyn o bryd yn gallu cyflwyno cais i ACLlau am Dystysgrif Datblygiad Arall Priodol, o dan adran 17 o Ddeddf Iawndal Tir 1961, a hynny heb ffi.
- 2.10 Fel ceisiadau eraill a gyflwynir i ACLlau, bydd angen lefel benodol o fewnbwn ar y mathau hyn o geisiadau o ran amser ac adnodd, er mwyn penderfynu arnynt. Ar ben hynny, bydd yr ymgeisydd yn cael lefel o fudd, megis Tystysgrif.
- 2.11 I gefnogi ACLlau i adennill costau o ran penderfynu ar geisiadau am dystysgrif datblygiad arall priodol, rydym yn cynnig cyflwyno £230 o ffi am bob cais.

<b>C1</b>	A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynyddu ffioedd ceisiadau 20%, ac eithrio ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyn cyflwyno cais? Os na, pam?
-----------	--

<sup>2</sup> Adran 6 o HM Treasury – Managing Public Money, Gorffennaf 2013 (Diwygiwyd Mawrth 2018)



**C2**

A ydych yn cytuno â chyflwyno £230 o ffi ar gyfer ceisiadau ar gyfer Tystysgrifau Datblygiad Arall Priodol, a wneir o dan adran 17 o Ddeddf lawndal Tir 1961? Os na, pam?

### **Ein cynigion ar gyfer y dyfodol**

- 2.12 Rydym yn cydnabod nad yw cynyddu ffioedd cynllunio o dro i dro fesul canran penodol, er mwyn ceisio adennill costau, yn gynaliadwy ac nad yw'n mynd i'r afael â'r newidiadau i'r broses o redeg gwasanaeth rheoli datblygu a'r cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth hynny.
- 2.13 Er enghraifft, mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod penderfynu ar fân geisiadau a cheisiadau deiliad tŷ fel arfer yn costio llawer mwy na'r ffi a bennir mewn deddfwriaeth. O ganlyniad, mae ffioedd ceisiadau mawr yn cael eu defnyddio i dalu am benderfynu ar y mathau hyn o geisiadau.
- 2.14 Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, ein bwriad yw ystyried a oes angen diwygio'r dull o godi ffioedd a lefel y ffioedd yn y tymor hwy.
- 2.15 Bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i nodi gwir gostau rhedeg gwasanaethau rheoli datblygu yn fanylach o gymharu â chostau ceisiadau unigol.
- 2.16 I gefnogi'r ymchwil hon, rydym hefyd yn bwriadu archwilio pa mor effeithlon y mae timau rheoli datblygu yng Nghymru yn penderfynu ar geisiadau, yn arbennig o ystyried pa mor gyflym y gwneir penderfyniadau a'r prosesau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i gyflawni'r swyddogaethau hyn. Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod gwasanaethau rheoli datblygu yn cael eu rhedeg mor effeithlon â phosibl gan sicrhau, ar yr un pryd, fod y gwasanaethau hynny'n cael eu hariannu'n briodol drwy ffioedd ceisiadau.
- 2.17 Bydd unrhyw gynigion yn y dyfodol sy'n ymwneud â modelau adennill costau neu brosesau a gweithdrefnau rheoli datblygu yn destun ymgynghoriad pellach.

**C3**

A hoffech fynegi sylwadau neu gyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â'r drefn bresennol ar gyfer ffioedd, neu gynnig unrhyw awgrymiadau i'w gwella?

**C4**

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

**C5**

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig ar gyfer newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Atodiad A – Diwygio Rheoliadau 2015:

### Diwygiadau arfaethedig i Reoliadau 2015

<b>Rheoliad o fewn Rheoliadau 2015</b>	<b>Y ffi daladwy arfaethedig</b>
<i>11. Ffioedd ar gyfer ceisiadau am dystysgrifau datblygiad arall priodol</i>	
11(3)(b). Cais a wneir o dan adran 191(1)(c) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.	<b>£230</b>
11(6)(a). Os y defnydd a bennir mewn cais o dan adran 191(1)(a) yw defnydd fel 50 neu nifer llai o dai annedd.	<b>£460 am bob tŷ annedd</b>
11(6)(b). Os y defnydd a bennir mewn cais o dan adran 191(1)(a) yw defnydd fel mwy na 50 o dai annedd.	<b>£23,000 fel ffi sylfaenol</b> <b>£120 am dŷ annedd sydd dros 50</b>
<i>13. Ffioedd ar gyfer ceisiadau penodol o dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir</i>	
13(1)(a). Pan wneir cais i awdurdod cynllunio am iddo benderfynu a fydd cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod yn ofynnol mewn perthynas â datblygiad o dan Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, rhaid talu ffi i'r awdurdod ar gyfer ceisiadau o dan Ran 6 (adeiladau a gweithrediadau amaethyddol), ceisiadau o dan Ran 7 (adeiladau a gweithrediadau coedwigaeth) a cheisiadau o dan Ran 11 (dymchwel).	<b>£100</b>
13(1)(b). Pan wneir cais i awdurdod cynllunio am iddo benderfynu a fydd cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod yn ofynnol mewn perthynas â datblygiad o dan Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, rhaid talu ffi i'r awdurdod ar gyfer ceisiadau o dan Ran 24 (cyfathrebiadau).	<b>£460</b>
<i>14. Ffioedd mewn cysylltiad â monitro safleoedd mwyngloddio a thirlenwi</i>	
14(4). Pan fo'r cyfan neu ran o'r safle yn safle gweithredol.	<b>£400 am bob ymweliad (yn ddarostyngedig i</b>

	<b>uchafswm o 8 ymweliad pob 12 mis)</b>
14(5). Pan fo'r safle yn safle anweithredol.	<b>£135 am bob ymweliad (yn ddarostyngedig i un ymweliad pob 12 mis)</b>
<i>15. Ffioedd am geisiadau a wneir o dan amod cynllunio</i>	
15(1)(a). Pan fo cais wedi ei wneud i awdurdod cynllunio lleol o dan erthygl 23 o'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012 a phan fo cais yn ymwneud â chaniatâd sy'n dod o fewn categori 6 neu 7 a bennir yn y tabl a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 1.	<b>£35</b>
15(1)(b). Pan fo cais wedi ei wneud i awdurdod cynllunio lleol o dan erthygl 23 o'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012 mewn unrhyw achos heblaw'r rheini a bennir ym mharagraff 15(1)(a).	<b>£115</b>
<i>16. Ffioedd am newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio</i>	
16(1)(a). Ceisiadau a wneir o dan adran 96A(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a bod y cais yn gais deiliad tŷ.	<b>£35</b>
16(1)(b). Ceisiadau a wneir o dan adran 96A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a bod y cais yn unrhyw gais heblaw am gais deiliad tŷ.	<b>£115</b>
<i>16A. Ffioedd am ddiwygiadau i ddatblygiad mawr ar ôl cyflwyno'r cais</i>	
16A(3). Pan fo diwygiad i gais dilys ar gyfer datblygiad mawr yn cael ei gyflwyno i awdurdod cynllunio lleol yn unol ag erthygl 22(1A) o'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012, rhaid talu ffi.	<b>£230</b>

## Atodlen 1

Ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau a cheisiadau tybiedig am ganiatâd cynllunio neu am gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl.

### Rhan 1: Ffioedd sy'n daladwy o dan reoliad 3 neu reoliad 10

Rhestr Ffioedd Ddrafft

<b>Rhif paragraff Atodlen 1 Rhan 1</b>	<b>Y ffi daladwy arfaethedig</b>
2. Pan fo cais neu gais tybiedig wedi ei wneud, neu y tybir iddo gael ei wneud, gan neu ar ran cyngor cymuned.	<b>50% o'r ffi wreiddiol</b>
3(1). Pan fo cais neu gais tybiedig wedi ei wneud, neu y tybir iddo gael ei wneud, gan neu ar ran clwb, cymdeithas neu sefydliad arall (gan gynnwys unrhyw bersonau sy'n gweinyddu ymddiriedolaeth) nas sefydlwyd ac nac yw'n cael ei gynnal er mwyn gwneud elw ac amcanion y clwb, y gymdeithas neu'r corff hwnnw yw darparu cyfleusterau ar gyfer chwaraeon neu hamdden.	<b>£460</b>
4. Cais am gymeradwyaeth ar gyfer mwy nag un mater a gadwyd yn ôl.	<b>£460</b>
5. Ceisiadau a wneir o dan adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.	<b>£230</b>
5A(3)(a). Ceisiadau a wneir o dan adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar ôl gwrthod newid ansylweddol, neu pan nad yw awdurdod cynllunio lleol wedi rhoi hysbysiad o'i benderfyniad mewn cysylltiad â chais cynharach gyda'r amser a bennir yn erthygl 28A(7) o'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012, ar gyfer cais deiliad tŷ.	<b>£190</b>
5A(3)(b). Ceisiadau a wneir o dan adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar ôl gwrthod newid ansylweddol, neu pan nad yw awdurdod cynllunio lleol wedi rhoi hysbysiad o'i benderfyniad mewn cysylltiad â chais cynharach gyda'r amser a bennir yn erthygl 28A(7) o'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012, ar gyfer unrhyw achos arall.	<b>£115</b>
6(a). Cais sy'n ymwneud â datblygiad a gyflawnwyd heb ganiatâd cynllunio.	<b>Y ffi a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 1</b>

6(b). Cais sy'n ymwneud ag unrhyw achos arall.	<b>£230</b>
7. Ceisiadau am ganiatâd cynllunio i estyn terfyn amser dan adrannau 91 neu 92 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, pan fo caniatâd cynllunio eisoes wedi ei roi ar gyfer datblygiad nad yw wedi ei ddechrau eto.	<b>£230</b>
13(2)(a). Ceisiadau am ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad sydd o fewn mwy nag un o'r categorïau, pan nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hecтар.	<b>£460 am bob 0.1ha</b>
13(2)(b). Ceisiadau am ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad sydd o fewn mwy nag un o'r categorïau, pan fo arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hecтар.	<b>£11,500 ffi sylfaenol</b>  <b>£120 am bob 0.1ha dros 2.5ha</b>  <b>Uchafswm ffi o £150,000</b>

## Rhan 2 – Graddfa Ffioedd mewn Cysylltiad â Cheisiadau a Wnaed neu y Tybir iddynt gael eu Gwneud:

### Rhestr Ffioedd Ddrafft

Categori'r Datblygiad	Y ffi daladwy arfaethedig
<i>I. Gweithrediadau</i>	
<p>1. Codi tai annedd (ac eithrio datblygiad o fewn categori 6 isod).</p>	<p>(a) pan fo'r cais yn gais am ganiatâd cynllunio amlinellol ac—</p> <p>(i) nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hectar, <b>£460</b> am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle,</p> <p>(ii) bod arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hectar, <b>£11,500 a £120</b> ychwanegol am bob 0.1 hectar dros 2.5 hectar, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o <b>£143,750</b>;</p> <p>(b) mewn achosion eraill—</p> <p>(i) pan fo nifer y tai annedd sydd i'w creu gan y datblygiad yn 50 neu'n llai, <b>£460</b> am bob tŷ annedd,</p> <p>(ii) pan fo nifer y tai annedd sydd i'w creu gan y datblygiad yn fwy na 50, <b>£23,000</b> a £100 ychwanegol am bob tŷ annedd dros 50 o dai annedd, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o <b>£300,000</b>.</p>
<p>2. Codi adeiladau (ac eithrio adeiladau yng nghategoriâu 1, 3, 4, 5 neu 7)</p>	<p>(a) pan fo'r cais yn gais am ganiatâd cynllunio amlinellol ac—</p> <p>(i) nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hectar, <b>£460</b> am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle,</p> <p>(ii) bod arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hectar, <b>£11,500 a £120</b> ychwanegol am bob 0.1 hectar dros 2.5 hectar, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o <b>£150,000</b>;</p> <p>(b) mewn achosion eraill –</p> <p>(i) pan nad oes arwynebedd llawr i gael ei greu gan y datblygiad, neu pan nad yw'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 40 metr sgwâr, <b>£230</b>,</p> <p>(ii) pan fo'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 40 metr sgwâr ond nid yn fwy na 75 metr sgwâr, <b>£460</b>,</p>

	<p>(iii) pan fo'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 75 metr sgwâr, <b>£460</b> am bob 75 metr sgwâr (neu ran o hynny), yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o <b>£300,000</b>.</p>
<p>3. Codi, ar dir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddiaeth, adeiladau i'w defnyddio at ddibenion amaethyddol (ac eithrio adeiladau yng nghategori 4).</p>	<p>(a) pan fo'r cais yn gais am ganiatâd cynllunio amlinellol ac—</p> <p>(i) nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hecтар, <b>£460</b> am bob 0.1 hecтар o arwynebedd y safle,</p> <p>(ii) bod arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hecтар, <b>£11,500</b> a <b>£120</b> ychwanegol am bob 0.1 hecтар dros 2.5 hecтар, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o <b>£150,000</b>.</p> <p>(b) mewn achosion eraill—</p> <p>(i) pan nad oes arwynebedd llawr i gael ei greu gan y datblygiad, neu pan nad yw'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 465 metr sgwâr, <b>£85</b>,</p> <p>(ii) pan fo'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 465 metr sgwâr ond nid yn fwy na 540 metr sgwâr, <b>£460</b>,</p> <p>(iii) pan fo'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 540 metr sgwâr, <b>£460</b> a <b>£460</b> ychwanegol am bob 75 metr sgwâr (neu ran o hynny) dros 540 metr sgwâr, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o <b>£300,000</b>.</p>
<p>4. Codi tai gwydr ar dir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddiaeth.</p>	<p>(a) Pan nad yw'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 465 metr sgwâr, <b>£85</b>,</p> <p>(b) pan fo'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 465 metr sgwâr, <b>£2,600</b>.</p>
<p>5. Codi, addasu neu amnewid peiriannau neu beirianwaith.</p>	<p>(a) Pan nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hecтар, <b>£460</b> am bob 0.1 hecтар o arwynebedd y safle;</p> <p>(b) pan fo arwynebedd y safle yn fwy na 5 hecтар, <b>£23,000</b> a <b>£120</b> ychwanegol am bob 0.1 hecтар dros 5 hecтар, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o <b>£300,000</b>.</p>
<p>6. Ehangu neu wella tai annedd presennol, neu eu haddasu rywfodd arall.</p>	<p>(a) Pan fo'r cais yn ymwneud ag un tŷ annedd, <b>£230</b>;</p> <p>(b) pan fo'r cais yn ymwneud â 2 neu ragor o dai annedd, <b>£460</b>.</p>



<p>7.</p> <p>(a) cyflawni gweithrediadau (gan gynnwys codi adeilad) o fewn cwrtil tŷ annedd presennol, at ddibenion sy'n atodol i fwynhad o'r tŷ annedd fel y cyfryw, neu godi neu adeiladu lliidiardau, ffensys, waliau neu ddulliau cau eraill ar hyd ffin cwrtil tŷ annedd presennol; neu</p> <p>(b) adeiladu meysydd parcio, ffyrdd gwasanaethu a mynedfeydd eraill ar dir a ddefnyddir at ddibenion menter sengl, pan fo angen y datblygiad at ddiben sy'n gysylltiedig â'r defnydd o dir presennol.</p>	<p><b>£230</b> ym mhob achos.</p>
<p>8. Cyflawni unrhyw weithrediadau sy'n gysylltiedig â drilio wrth chwilio am olew neu nwy naturiol.</p>	<p>(a) Pan nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 7.5 hectar, <b>£460</b> am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle;</p> <p>(b) pan fo arwynebedd y safle yn fwy na 7.5 hectar, <b>£34,500</b> a <b>£120</b> ychwanegol am bob 0.1 hectar dros 7.5 hectar, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o <b>£300,000</b>.</p>
<p>9. Cyflawni unrhyw weithrediadau nad ydynt yn dod o fewn unrhyw un o'r categorïau uchod.</p>	<p>(a) Yn achos gweithrediadau ar gyfer cloddio a gweithio mwynau-</p> <p>(i) pan nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 15 hectar, <b>£230</b> am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle;</p> <p>(ii) pan fo arwynebedd y safle yn fwy na 15 hectar, <b>£34,500</b> a <b>£120</b> ychwanegol am bob 0.1 hectar dros 15 hectar, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o <b>£80,000</b>;</p> <p>(b) ym mhob achos arall, <b>£230</b> ar gyfer pob 0.1 hectar o arwynebedd y safle, yn ddarostyngedig i uchafswm o <b>£300,000</b>.</p>
<p><i>II. Defnydd o dir</i></p>	

<p>10. Newid y defnydd o adeilad i ddefnydd fel un neu ragor o dai annedd ar wahân</p>	<p>(a) Pan fo'r newid defnydd yn newid o ddefnydd blaenorol fel un tŷ annedd i ddefnydd fel dau neu ragor o dai annedd sengl—</p> <p>(i) pan fo'r newid defnydd yn newid i ddefnydd fel 50 neu lai o dai annedd, <b>£460</b> am bob tŷ annedd ychwanegol,  (ii) pan fo'r newid defnydd yn newid i ddefnydd fel mwy na 50 o dai annedd, <b>£23,000</b> a <b>£120</b> am bob tŷ annedd dros 50 o dai annedd, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o <b>£300,000</b>;</p> <p>(b) ym mhob achos arall—</p> <p>(i) pan fo'r newid defnydd yn newid i ddefnydd fel 50 neu lai o dai annedd, <b>£460</b> am bob tŷ annedd,  (ii) pan fo'r newid defnydd yn newid i ddefnydd fel mwy na 50 o dai annedd, <b>£23,000</b> a <b>£120</b> ychwanegol am bob tŷ annedd dros 50 o dai annedd, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o <b>£300,000</b>.</p>
<p>11. Defnydd o dir ar gyfer gwaredu sbwriel neu ddeunyddiau gwastraff neu ar gyfer gollwng deunydd sy'n weddill ar ôl echdynnu mwynau o dir, neu ar gyfer storio mwynau mewn man agored.</p>	<p>(a) Pan nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 15 hectar, <b>£230</b> am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle;</p> <p>(b) pan fo arwynebedd y safle yn fwy na 15 hectar, <b>£34,500</b> a <b>£120</b> ychwanegol am bob 0.1 hectar dros 15 hectar, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o <b>£80,000</b>.</p>
<p>12. Gwneud newid sylweddol yn y defnydd o adeilad neu dir (ac eithrio newid defnydd sylweddol sy'n dod o fewn unrhyw un o'r categorïau uchod).</p>	<p><b>£460.</b></p>

## Atodlen 2 – Ffioedd am Hysbysebion – Graddfa Ffioedd mewn Cysylltiad â Cheisiadau am Ganiatâd i Arddangos Hysbysebion

### Rhestr Ffioedd Ddrafft

Categori'r datblygiad	Ffi daladwy
<p>1. Hysbysebion a arddangosir ar fangre busnes, ar flaengwrt mangre busnes neu ar dir arall o fewn cwrtil mangre busnes, sydd, yn gyfan gwbl, yn cyfeirio at bob un neu unrhyw rai o'r materion canlynol—</p> <p>(a) natur y busnes neu'r gweithgaredd arall a gynhelir yn y fangre;</p> <p>(b) y nwyddau a werthir neu'r gwasanaethau a ddarperir yn y fangre; neu</p> <p>(c) enw a chymwysterau'r person sy'n cynnal y cyfryw fusnes neu weithgaredd neu'n cyflenwi'r cyfryw nwyddau neu wasanaethau.</p>	<p><b>£120</b></p>
<p>2. Hysbysebion at y diben o gyfeirio aelodau o'r cyhoedd at fangre busnes, neu dynnu sylw rywfodd arall at fodolaeth mangre busnes, sydd yng nghyffiniau'r safle yr arddangosir yr hysbyseb arno, ond nid yn weladwy o'r safle hwnnw.</p>	<p><b>£120</b></p>
<p>3. Pob hysbyseb arall.</p>	<p><b>£460</b></p>